# Comisiwn y Cynulliad

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Gynhadledd 4B - Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Llun, 10 Mehefin 2019** |
| Amser: | **12.30 - 14.35** |

## Cofnodion: AC(5)2019(4)

Aelodau'r Comisiwn:

**Elin Jones AC (Cadeirydd)**
**Suzy Davies AC**
**Siân Gwenllian AC**
**David J Rowlands AC**
**Joyce Watson AC**

Swyddogion yn bresennol:

**Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad**
**Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad**
**Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Ymgysylltu**
**Nia Morgan, Cyfarwyddwr Cyllid**
**Anna Daniel, Pennaeth Trawsnewid Strategol**
**Nerys Evans, Pennaeth y Gwasanaeth, Rheoli Cyfleusterau ac Ystadau**
**Kevin Tumelty, Pennaeth Diogelwch**
**Mair Parry-Jones, Pennaeth y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi**
**Sarah Dafydd, Rheolwr Newid a Gwella Busnes**
**Gareth Watts, Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd**
**Carys Rees, Rheolwr Dysgu ac Ymgysylltu a'r Aelodau**
**Sulafa Thomas, Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau**
**Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd**
**Elin Roberts, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd**

Eraill yn bresennol:

## 1 Cyflwyniad

### 1.1 Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

Ni chafwyd ymddiheuriadau.

### 1.2 Datgan buddiannau

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant.

### 1.3 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Ebrill.

## 2 Strategaeth Cyllideb Comisiwn y Cynulliad 2020-21

Parhaodd y Comisiynwyr i ystyried eu cynigion ar gyfer strategaeth y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-21.

Y ddau brif faes a drafodwyd oedd gofyniad cyffredinol y gyllideb ar gyfer 2020-21; gan gynnwys effaith cyllideb atodol gyntaf 2019-20 ar gostau pensiwn; a blaenoriaethau buddsoddi newydd y Comisiwn ar gyfer 2020-21. Trafodwyd nifer o themâu gan gynnwys archifo, y wefan a gweithgareddau ymgysylltu.

Caiff cynigion ar gyfer y gyllideb eu gosod, yn unol â'r Rheolau Sefydlog, ym mis Medi.

## 3 Diwygio'r Cynulliad – y wybodaeth ddiweddaraf

Trafododd y Comisiwn y trefniadau ar gyfer ymateb i adroddiadau pwyllgor yn y dyfodol sy'n ymwneud â Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru). Cytunodd y Comisiynwyr mai'r Llywydd sydd i benderfynu ar y dull a'r amserlen ar gyfer ymateb i adroddiadau pwyllgorau ac y trafodir ymhellach â hwy cyn y ddadl Cyfnod 1 yn y Cyfarfod Llawn.

O ran trefniadau ariannu'r Comisiwn Etholiadol ac atebolrwydd y sefydliad, trafododd y Comisiynwyr y dull arfaethedig a nodwyd y cyngor. Roeddent yn cytuno y dylai'r Llywydd, mewn ymgynghoriad â Suzy Davies a chan ystyried safbwyntiau a fynegwyd gan y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn nhrafodion Cyfnod 1, fynd ati i drafod â'r Cwnsler Cyffredinol i gymeradwyo'r dull.

O ran gwaith pellach ar ddiwygio'r Cynulliad, yn ymwneud â maint y Cynulliad a diwygio'r system etholiadol, penderfynodd y Comisiynwyr nad oedd yn bosibl deddfu yn y Cynulliad hwn. Fodd bynnag, byddai'r gwaith o ystyried materion sy'n ymwneud â maint y Cynulliad a sut y dylid ethol Aelodau yn parhau er mwyn hwyluso'r ddadl gyhoeddus a chynorthwyo'r pleidiau gwleidyddol wrth iddynt ystyried eu barn ar y materion hyn.

## 4 Diogelwch ffisegol

Rhoddwyd diweddariad i'r Comisiynwyr am ddatblygiad arfaethedig protocolau diogelwch, a materion sydd wedi codi'n ddiweddar mewn cysylltiad â diogelwch. Byddai gwybodaeth yn cael ei darparu i'r Comisiynwyr ei hystyried ac yna ei rhannu gyda'u grwpiau.

Trafododd y Comisiynwyr gynigion i wneud gwelliannau i wella trefniadau diogelwch yn y mannau mynediad cyhoeddus yn y Senedd a Thŷ Hywel, a chytunwyd arnynt, gan gynnwys hynny yn y gwaith o gynllunio'r gyllideb.

## 5 Adroddiad Blynyddol ar Gydymffurfio â'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol

Mae'n ofynnol i Gomisiwn y Cynulliad "osod adroddiad gerbron y Cynulliad yn nodi sut y mae'r Comisiwn, yn ystod y flwyddyn dan sylw, wedi rhoi effaith i'r Cynllun" - Deddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Ieithoedd Swyddogol) 2012.

Adolygodd y Comisiynwyr adroddiad yn trafod y gwaith a wnaed ar draws y sefydliad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Gwnaethant geisio sicrwydd ynghylch y ffordd y mae'r cynllun yn gweithredu mewn perthynas â recriwtio, a thrafodwyd cyfleoedd i gymryd rhan yn rhaglen Common Voice Mozilla i gasglu recordiadau o bobl yn siarad i helpu i ddysgu peiriannau sut mae pobl yn siarad yn Gymraeg.

Cymeradwyodd y Comisiynwyr yr adroddiad drafft, yn amodol ar fân newidiadau, cyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn.

## 6 Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Drafft Comisiwn y Cynulliad 2018-19

Trafododd y Comisiynwyr fersiwn ddrafft o adroddiad blynyddol a chyfrifon Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2018 hyd at 31 Mawrth 2019, ac roeddent yn fodlon ar yr hyn a welwyd.

Bydd y fersiwn derfynol i'w chymeradwyo ym mis Gorffennaf, ac yna caiff ei gosod erbyn diwedd tymor yr haf. Bydd ar gael ar-lein.

## 7 Canlyniadau arolwg yr Aelodau a'u staff cymorth 2019

Rhoddwyd crynodeb i'r Comisiynwyr o Arolwg Aelodau'r Cynulliad a'u Staff Cymorth 2019. Yn unol â phenderfyniad y Comisiwn yn 2018, roedd yr arolwg eleni yn fyrrach ac yn bennaf roedd yn casglu data meintiol i ganiatáu ar gyfer cymariaethau a monitro perfformiad o flwyddyn i flwyddyn.

Nododd y Comisiynwyr ganfyddiadau'r Arolwg, a chytunwyd i'w rannu â'r Aelodau a'u staff yn ddiweddarach y mis hwn.

## 8 Papurau i'w nodi:

### 8.1 Adroddiad blynyddol y Pwyllgor Taliadau

Nododd y Comisiwn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Taliadau.

### 8.2 Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid

Nododd y Comisiynwyr lythyr a anfonwyd at Suzy Davies gan y Pwyllgor Cyllid ynghylch y Cynllun Ymadael Gwirfoddol.

8.3 Y wybodaeth ddiweddaraf am yr ugainmlwyddiant

Nododd y Comisiynwyr y wybodaeth ddiweddaraf am drefniadau i nodi 20 mlwyddiant y Cynulliad. Byddai diweddariad arall cyn toriad yr haf ynglŷn â digwyddiadau'r hydref.

8.4 Cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mis Mawrth

Nodwyd cofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mis Mawrth.

## 9 <u>Unrhyw fater arall</u>

- Cafodd y Comisiynwyr y wybodaeth ddiweddaraf am achos Tribiwnlys Cyflogaeth sy'n mynd rhagddo.
- Nododd y Comisiynwyr lythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid mewn perthynas ag ystyriaeth y Pwyllgor o gynigion i ddiwygio Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Yn y cyfnod ers y cyfarfod diwethaf roedd y Comisiynwyr wedi cytuno ar ymatebion i'r Pwyllgor Cyllid mewn perthynas â chraffu ar ôl deddfu ac Ariannu cyrff a ariennir yn uniongyrchol, i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus mewn perthynas ag argymhellion o ran craffu ar y Gyllideb ac i Ymgynghoriad y Bwrdd Taliadau ar y Penderfyniad (ynghyd ag egwyddorion cysylltiedig ar gyfer teithio gan y Comisiwn).